FSB Wales
Federation of Small Businesses

Cwmnïau Bach, Materion Mawr

Cynllun ar gyfer Cymru

Mentrau Bach a Chanolig (BBaCh) yw 99% o stoc busnes Cymru ac maent yn darparu cyflogaeth i dros hanner gweithlu'r sector preifat[1]. Gyda dirywiad graddol diwydiant trwm yng Nghymru, ni allai rôl BBaCh yn ein heconomi fod yn fwy amlwg nac yn hanfodol bwysig. Yn wir, mae llwyddiant ein heconomi a'i lle oddi mewn i'r byd ehangach yn dibynnu'n drwm ar iechyd y busnesau pwysig hyn.

Wrth i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu a chael pwerau cynyddol dros yr wyth mlynedd ddiwethaf, mae ei ddylanwad a'i effaith ar y gymuned fusnes yng Nghymru hefyd wedi cynyddu. Mae hi'n bwysig i fusnesau bach, po fwyaf y pwerau y mae'r Cynulliad yn ei gael, po fwyaf y mae'n ceisio sicrhau ei fod yn effro i anghenion y fath fusnesau.

Dyna pam y mae etholiadau 2007 yn gosod y sialens bwysig i fusnesau bach a gwneuthurwyr penderfyniadau fel ei gilydd. Mae'n rhaid i BBaCh fod yn eglur ynglŷn â'r hyn y maent ei eisiau ac yn disgwyl oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae'n rhaid i'r Cynulliad yn ei dro fod yn fodlon gwrando ar y negeseuon hyn a gweithredu arnynt.

Ar wahân i'r etholiadau, mae 2007 ynddi ei hun yn garreg filltir bwysig yn natblygiad deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Gyda'r pwerau a roddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, bydd y Cynulliad yn cael swyddogaeth ddeddfwriaethol Sylfaenol. Bydd busnesau bach yn edrych i gyfeiriad y Cynulliad er mwyn sicrhau, lle gweithredir y pwerau hyn mewn meysydd sy'n effeithio ar y sector preifat, na'u defnyddir i gyfyngu ar eu gweithredu nac ychwanegu at y baich biwrocrataidd, ond yn hytrach creu'r amgylchedd priodol i fusnesau ffynnu a dod yn fwy cystadleuol.

Mae'r materion a amlinellir yn y ddogfen hon yn amlinellu'r sialensiau a wynebir gan fusnesau bach yng Nghymru. Mae prinderau sgiliau, materion yn ymwneud â thrafnidiaeth a chyfleoedd ar gyfer caffael yno'n llu, ac mae'n bosibl fod yn rhain yn faterion amlwg. Fodd bynnag, mae materion llai amlwg ac sydd efallai yn destun syndod. Er enghraifft, mae hi'n amlwg fod busnesau yn edrych am gyfleoedd i gyflawni eu goblygiadau amgylcheddol yn well mewn modd sydd nid yn unig yn sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan, ond hefyd mewn modd sy'n rhoi mantais gystadleuol iddynt.

Lluniwyd y maniffesto hwn ar sail ymgynghori eang gyda rhai o'r 9,500 o aelodau sydd gan FfBB yng Nghymru. Cynhaliwyd nifer fawr o arolygon, grwpiau ffocws, a chyfarfodydd wyneb-yn-wyneb er mwyn canfod beth yn union y mae busnesau bach yn ei ddisgwyl o'r Cynulliad nesaf. Fel y cyfrwy, dylid ystyried y ddogfen hon fel cynrychiolaeth gywir o anghenion busnesau bach.

Mae hi'n bwysig fod y Cynulliad nesaf yn mynnu ffocws ar ddatblygiad economi busnesau bach a'i fod yn deddfu mesurau sy'n adlewyrchu'r angen am y symud economaidd hynny.

Nid yw'r ddogfen hon yn gwneud unrhyw sylw ar bolisïau a fu, ond yn hytrach, mae'n ceisio cyhoeddi sialens gadarnhaol ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Yr ydym yn gobeithio ac yn disgwyl y bydd y Cynulliad nesaf yn codi i'r sialens hynny, ceisio creu economi sy'n gystadleuol, yn gynaliadwy ac yn fwy cymwys o wynebu'r sialensiau a ddaw'n ddi-os yn y blynyddoedd sydd i ddod.

[1] *Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

FSB Wales
Federation of Small Businesses

Cwmnïau Bach, Materion Mawr

Cymunedau Cynaliadwy i Gymru

Mae'r syniad o 'gymunedau cynaliadwy yn gysyniad sydd yn rhaid iddo fod wrth galon holl wneud-penderfyniadau'r Cynulliad. Mae'n derm a ddefnyddir fwyfwy ac sydd, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi'i ddefnyddio'n aml wrth fynd i'r afael â gweithrediadau polisi cymdeithasol.

Fodd bynnag, yr hyn nas gwerthfawrogir yn aml yw'r rôl bwysig sydd gan fusnesau bach wrth greu cymunedau cynaliadwy. Heb fusnesau bach, mae hi'n amheus a ellid disgrifio unrhyw gymuned fel un sy'n wirioneddol 'gynaliadwy'.

Mae FfBB yn bryderus iawn ynglŷn â thwf siopau cadwyn manwerthu mawr a'r datblygiad allan-o'r-dref cysylltiedig, sydd wedi cyfrannu at sugno masnach a buddsoddiad i ffwrdd o galon llawer o'n cymunedau a chredwn y dylai'r Cynulliad sefyll yn gadarn a gwrthsefyll yr effaith hwn.

Lle bo hyfywdra busnesau dan fygythiad, felly hefyd y mae'r cymunedau lle maent yn gweithredu. Yn anffodus, mae busnesau bach yn wynebu nifer cynyddol o sialensiau a bygythiadau, baich costau cynyddol, cystadleuaeth oddi wrth fusnesau mwy eu maint sy'n ymosodol ac sy'n aml yn annheg, a diffyg safleoedd busnes a chyflogedigion addas, ac mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at fygwth amrywiaeth a hyfywedd busnesau bach, ac yn y pen draw, ein cymunedau.

Mae hi'n bwysig fod y Cynulliad nesaf yn ceisio mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynaladwyedd busnes yn hytrach na phryderu am gychwyniadau busnes. Lle gall busnes barhau i lwyddo yn hytrach na methu am fod y perchennog wedi ymddeol er enghraifft, mae angen galluogi hyn yn haws ac felly, mae angen gweithredu strategaeth er mwyn hyrwyddo olyniaeth busnes.

Yr ydym hefyd yn teimlo'n gryf y dylid cynyddu'n sylweddol y cyllid sydd ar gael ar gyfer y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach newydd er mwyn caniatáu o leiaf yr un lefelau o gymorth â'r cynllun a weinyddir yn Lloegr h.y. 50% o ryddhad ar gyfer busnesau â gwerth trethiannol sy'n is na £5,000.

Mae FfBB yn credu fod angen adfer y cydbwysedd, gan gydnabod y rôl golynnol y mae busnesau bach yn ei chwarae mewn cymunedau trwy greu'r hinsawdd briodol ar gyfer eu datblygiad a'u helpu i'w galluogi i gystadlu ochr-yn-ochr â busnesau mwy eu maint, a darparu gwasanaethau gwerthfawr ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Astudiaeth Achos - Weigh Out, Barmouth

Perchennog Weigh Out yw Linda Howells, siop sy'n gwerthu cymysgeddau teisennau, bwydydd pobi a chynhwysion eraill. Mae'r siop wedi'i lleoli yn Abermaw ers llawer blwyddyn ac mae'n rhan allweddol o dirwedd fusnes y dref.

"O'r blaen, yr oeddwn wedi bod yn gweithio i'r busnes hwn, a phan wnaeth y perchennog blaenorol ymddeol, roeddwn yn wynebu gorfod dod o hyd i swydd arall. Roedd fy nheulu a minnau eisiau aros yn yr ardal hon ac roeddwn i fyny i sialens rhedeg busnes. Ar wahân i sicrhau fy swydd fy hunan a swyddi eraill, roedd achub y busnes nodedig, hyfyw hwn hefyd yn yrrwr pwysig i mi. Mae gennym ddwy elfen i'n cronfa cwsmeriaid, masnach leol a'r farchnad dwristiaeth, ac mae llawer ohonynt yn sicrhau eu bod yn dod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn. Pan gymerais i drosodd, nid oedd gennyf unrhyw gyngor na chymorth ond buasai'n bendant wedi bod o gymorth. Fodd bynnag, yn ffodus, yr oeddwn yn gwybod popeth am y busnes o'r tu fewn. Oni bai am yr amgylchiadau hynny, buasai wedi bod yn anodd. Pan fo busnesau eraill yn yr ardal yn cau, yn aml iawn mae'r gost o'u cymryd trosodd yn aml yn rhy uchel, ac mae penderfynu a yw'r risg ariannol yn rhy fawr yn anodd am fod perchnogion, am resymau amlwg iawn, yn amharod i agor eu llyfrau.

Yr ydym eisiau i fusnesau da barhau mewn lleoedd fel Abermaw. Buasai rhwydwaith da sy'n cysylltu entrepreneuriaid dichonol â busnesau hyfyw yn darparu gyrrwr ar gyfer olyniaeth busnes, ond mae'n rhaid ei fod yn gynigiad deniadol a bod cymorth priodol ar gael. Buasai hefyd yn bwysig wrth helpu i leddfu colli nwyddau lleol i ardal. Pe na bawn i wedi llwyddo, buasai Weigh Out wedi'i golli".

Argymhellion FfBB

- *Bod Llywodraeth nesaf Cynulliad Cymru yn annog awdurdodau lleol i sicrhau fod darparu unedau manwerthu fforddiadwy neu gymorthdaledig yn cael ei wneud yn amod o ddatblygiadau siopa newydd er mwyn sicrhau amrywiaeth a goroesiad busnesau bach ac atal effaith y 'dref clôn' y mae cryn dystiolaeth ohono.*
- *Dylai'r gronfa sydd ar gael ar gyfer rhyddhad ardrethi busnesau bach gael ei ehangu'n sylweddol er mwyn cyflawni paredd â'r lefel o ryddhad sydd ar gael i fusnesau yn Lloegr.*
- *Y dylai datblygiad pob archfarchnad oddi mewn i Gymru wynebu asesiad annibynnol gorfodol o effaith manwerthu.*
- *Y dylai datblygiadau tai newydd gynnwys oddi mewn iddynt, gynlluniau ar gyfer gwasanaethau manwerthu sylfaenol megis siopau lleol ac y dylid gwneud isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus yn amod o'r fath ddatblygiad.*
- *Y dylai'r Cynulliad nesaf wrthwynebu unrhyw gynlluniau i gynnwys 'treth gwely' ar fusnesau twristiaeth yng Nghymru.*
- *Y dylai siopau elusennau sy'n gwerthu marsiandiaeth newydd dalu trethi busnes.*
- *Y dylai'r Llywodraeth nesaf Cynulliad Cymru barhau i wrthsefyll galwadau i ddod â busnesau preifat dan delerau unrhyw Ddeddf yr Iaith Gymraeg a pharhau i annog dull gwirfoddol o fabwysiadu'r iaith Gymraeg gan fusnesau.*
- *Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu rhaglen ar gyfer hyrwyddo cysyniad gweithio-gartref a chynnig cymhellion i fusnesau sy'n dangos ymrwymiad at weithio-gartref.*
- *Mae angen gweithredu strategaeth olyniaeth busnes, ac mae angen datblygu prosesau a strwythurau ar gyfer y rhai hynny a allai fod yn dymuno cymryd busnes drosodd.*
- *Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol lobïo Llywodraeth y DU i roi eithriadau o enillion cyfalafol ar werthiannau olyniaeth busnes.*

FSB Wales
Federation of Small Businesses

Cwmnïau Bach, Materion Mawr

Rhwydweithiau ar gyfer Cymru

Ni all fod unrhyw amheuaeth fod rhwydwaith trafnidiaeth effeithiol ac effeithlon yn allweddol i lwyddiant economi Cymru. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb eang am drafnidiaeth yng Nghymru, ac felly'r pŵer i wella ein rhwydweithiau yn sylweddol er lles busnesau a hyrwyddo llwyddiant economaidd.

Mae llawer o fusnesau y tu allan i Dde Cymru yn dweud eu bod yn teimlo wedi'u dadryddfreinio o gyfleoedd Caerdydd fel Prifddinas Ewropeaidd ddirgrynol sy'n tyfu, a marchnadoedd yr ardaloedd sydd o gwmpas. Mae llawer yn ffeindio fod cael at farchnadoedd allanol ar draws y ffin yn haws na marchnata oddi mewn i'w gwlad eu hunain. Dywedir dro ar ôl tro bod amser a chostau trafnidiaeth yn rhwystrau i allforio a thyfiant. Mae trafnidiaeth gyhoeddus hefyd yn achosi pryder gyda 61.4% o fusnesau yn datgan nad ydynt yn fodlon â'r ddarpariaeth yn eu hardal[2].

Ni ellir dweud rhy ychydig am bwysigrwydd datblygu maes glanio Caerdydd, Os yw yn wir i ddod yn foth awyr rhyngwladol, bydd gwelliannau sylweddol i gysylltiadau dros y tir a chydgysylltiadau ag isadeiledd rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy yn gynreidiol.

Mae'r prif feysydd anfoddhad ynglŷn ag effeithiau materion trafnidiaeth yn ymwneud ag isadeiledd ffyrdd, tollau ffyrdd, taliadau tagfeydd a chynlluniau trafnidiaeth leol. Mae codi tâl ar deithwyr yn ymddangos fel pryder i fusnesau yn aml. O reidrwydd, bydd y materion hyn yn amlygu eu hunain yn amlwg ar agenda tymor nesaf y Cynulliad, ac mae felly'n gwbl angenrheidiol i ddod â busnesau eu hunain i mewn i'r ddadl.

Mae FfBB yn dal yn gwbl wrthwynebus i bob math o godi tâl am ddefnyddio ffyrdd. Mae'r modelau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn methu â gwahaniaethu rhwng codi am deithio angenrheidiol a dianghenraid. Yn hytrach, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru geisio cymell defnyddio gwahanol ddulliau o deithio a datblygu tanwydd amgen i gerbydau, yn hytrach na'r strategaeth bresennol o ddarparu anghymelliadau i ddefnyddio cerbydau preifat heb ddewisiadau trafnidiaeth gyhoeddus ymarferol fel arall.

Dylid gweld y fath rhwydweithiau fel galluogwyr busnes ac felly fel cyfleoedd ar gyfer ehangu busnes. Yn yr un modd, dylid gweld buddsoddi yn yr isadeiledd fel cyfle i hyrwyddo ffyniant economaidd.

Astudiaeth Achos - Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst

Mae Myrddin ap Dafydd yn rhedeg Gwasg Carreg Gwalch, cyhoeddwyr dwyieithog llwyddiannus, sydd wedi'u gwreiddio yng Nghymru. Mae'r busnes wedi'i leoli mewn dwy swyddfa ym Mhwllheli a Llanrwst, ac mae'n cyflogi 21 o bobl.

"Mae isadeiledd trafnidiaeth hyfyw yn greiddiol i redeg ein busnes. Yr ydym yn ddibynnol ar allu cwrdd ag awduron a dosbarthwyr, ynghyd â chyflwyno'r cynnyrch terfynol ledled Cymru.

Yn anffodus, mae'r rhwydwaith presennol yng Nghymru yn llesteirio ein gallu i ehangu. Er gwaethaf y ffaith bod ein swyddfa yn Llanrwst wedi'i lleoli ar y brif ffordd trwy Gymru o'r Gogledd i'r De, ychydig o leoedd sydd i geir basio cerbydau sy'n fwy, ac mae'r traffig yn aml yn stopio ac yn methu symud. O ran dosbarthu oddi mewn i Gymru, mae'n bosibl y gallem elwa o symud. Yr ydym 10 munud o'r A55 felly nid yw mynediad i Loegr yn broblem. Fodd bynnag, mae ein busnes wedi'i leoli yng Nghymru ac yma mae ein prif farchnadoedd felly mae'n angenrheidiol i ni aros mor agos â phosibl i'n ffynhonnell.

Dylai cyrraedd Caerdydd a Gorllewin Cymru fod yn haws. O ran milltiroedd, nid ydynt yn bell, a dylai'r cyfleoedd y mae'r brifddinas yn eu cynnig fod ar gael i'r holl fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru – mae'r brifddinas yn eiddo i Gymru gyfan.

I'n busnes ni, mae dosbarthu effeithiol yn bopeth, felly buasai uwchraddio'r rhwydwaith ffyrdd un allweddol i helpu i ni dyfu".

Argymhellion FfBB

- *Gwelliant sylweddol i gysylltiadau De-Gogledd.*
- *Dylai'r Cynulliad nesaf edrych ar ddewisiadau eraill ar wahân i godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd.*
- *Dylai Llywodraeth y Cynulliad edrych i mewn i ymarferoldeb amserlennu a thicedu trafnidiaeth gyhoeddus a'u cyfannu yn briodol.*
- *Dylid gwella cysylltiadau ffyrdd ar hyd arfordir y Gorllewin.*
- *Dylai'r Cynulliad gefnogi datblygu'r defnydd o dechnoleg biodanwydd yng Nghymru.*
- *Dylai'r Cynulliad ddatblygu cyfundrefn benthyciadau am log isel er mwyn ysgogi trosi cerbydau busnes i ddefnyddio biodanwydd.*
- *Datblygu both awyr-rheilffordd-heol gerllaw maes awyr Caerdydd gan ddatblygu cyfleustra parcio a theithio.*
- *Ymrwymiad i ddatblygu ffordd gyswllt rhwng maes awyr Caerdydd â'r M4.*
- *Dylai'r Cynulliad hyrwyddo darparu parcio am ddim mewn gorsafoedd trenau er mwyn annog y defnydd o'r rhwydwaith rheilffyrdd.*
- *Cymorth oddi wrth y Cynulliad ar gyfer Cynllunio Teithiau personol er mwyn helpu busnesau gynllunio'r defnydd mwyaf effeithiol o drafnidiaeth.*
- *Y Cynulliad i ymrwymo i ddeuoli'r A40 i'r Gorllewin o Sanclêr.*

[2] *Arolwg Dwyflynyddol FfBB o'r aelodaeth Codi'r Rhwystrau i Dyfiant mewn Busnesau Bach 2006*

FSB Wales
Federation of Small Businesses

Cwmnïau Bach, Materion Mawr

Cymorth Busnes i Gymru

Pan fo rhywun yn cyfeirio at 'gymorth busnes', y rhagdybiaeth yw bod hyn wedi'i gysylltu'n agos â'r strwythur grantiau busnes yng Nghymru a'r hyn y gellid ei ystyried yn ddiwylliant 'rhoddion'.

Fodd bynnag, y realiti yw bod gweinyddu cymorth busnes perthnasol ac ymatebol yn gymaint ynglŷn â chreu'r amgylchedd cywir ar gyfer ehangu busnes ag y mae am ymyriadau cyllido uniongyrchol.

Mae angen i gymorth a roddir i fusnesau o ran cyngor fod yn berthnasol, yn amserol ac yn unol ag anghenion unigol. Mae ystadegau FfBB yn dangos lefel isel o blith busnesau o ran hawlio cyngor busnes a gyllidir gan y llywodraeth, er bod gan y cymorth rôl allweddol i'w chwarae wrth ddatblygu busnesau. Mae'n hanfodol ein bod yn edrych i mewn i wella'r sefyllfa hon.

Mae FfBB yn credu fod angen i'r Cynulliad nesaf gymryd camau mwy radical i hyrwyddo'r 'diwylliant buddsoddi' y siaredir cymaint amdano trwy ystyried dileu llawer o'r ffrydiau cyllido grantiau presennol gan sefydlu system o fenthyciadau llog isel neu 'feddal' yn lle. Buasai hyn yn gwarantu adenillion ar fuddsoddiad cyhoeddus a buasai'n diddyfnu busnes yng Nghymru oddi wrth ddiwylliant dibynnu-ar-grantiau sydd wedi datblygu dros lawer o flynyddoedd.

Er bod cynnydd da wedi'i wneud wrth agor rhodfeydd sy'n caniatáu i BBaCh i gymryd rhan yn y broses gaffael, erys llawer i'w wneud eto. Mae FfBB yn credu y dylid bod diwylliant rhagweithiol o flaenoriaeth i gwmnïau Cymreig er mwyn helpu datblygu'r gronfa fusnes gynhenid. Yn ogystal, mae angen cynnig adborth cadarnhaol pan fo busnesau'n aflwyddiannus yn y broses gynnig er mwyn cynorthwyo'r busnesau hynny i ddysgu a datblygu.

Yn anad dim, teimlwn fod angen i'r gyfundrefn cymorth yng Nghymru gydnabod fod angen cymorth ar dri cham yng Nghymru – cymorth wrth sefydlu, cymorth wrth ddatblygu ac, yn bwysig iawn, cynllun cynorthwyo ar gyfer olyniaeth busnes.

Astudiaeth Achos - Borble, Rhyl

Mae Barry Griffiths yn rhedeg Borble, cwmni argraffu digidol sy'n tyfi, ac sydd ar hyn o bryd yn cyflogi 6 o bobl yn y Rhyl. Mae Borble wedi mabwysiadu'r dechnoleg argraffu a chyn argraffydd ddiweddaraf er mwyn cynhyrchu labeli, baneri a llu o eitemau eraill o ansawdd uchel ar gyfer busnesau lleol a brandiau byd-eang fel ei gilydd. Mae'r cwmni ar fin ehangu ac ymestyn ei "Ôl-troed digidol".

Cydnabyddir bod y math hwn o fusnes cychwynnol yn un risg-uchel ond mae lefel y risg yn ymestyn o gychwyn trwy dyfiant cychwynnol hyd nes bod gan y busnes rhywfaint o fas critigol a dilyniant proses, a hyd yn oed wedyn nid yw'r risg yn diflannu ond gellir ei reoli yn haws / yn rhagweledol".

"Yn y pen draw, ni ellir ynysu'r busnes newydd o'r amgylchedd cystadleuol. Fodd bynnag, mae rhai dulliau ymarferol y gall y Llywodraeth helpu busnesau newydd entrepreneuraidd / arloesol:

(a) Lle bo hynny'n briodol, galluogi ymgyfraniad rhannol mewn Tendrau'r Llywodraeth er mwyn i'r busnes newydd gael profiad perthnasol a gwneud rheoli tendrau i safon y Llywodraeth yn destun adolygu perfformiad.

(b) Mae angen ymgynghorwyr ar fusnesau sy'n siarad eu hiaith ac sy'n cydnabod y sialensiau a'r cyfleoedd yr ydym yn eu hwynebu. Mae hi'n hanfodol rhyddhau cyllido o dâp coch, ei fod yn ymwybodol o'r risg ac yn gallu ymateb yn well i'r math o linellau terfyn yr ydym yn gweithio iddynt. Yn rhy aml o lawer, erbyn i'r cyllido gael ei ddyfarnu, mae'r cyfle wedi pasio".

Argymhellion FfBB

- *Dylai'r Cynulliad ddatblygu dull 3-cham o fynd i'r afael â chynorthwyo busnes, gan gynnwys cymorth ar gyfer sefydlu, cymorth ar gyfer ehangu a chymorth ar gyfer olyniaeth.*
- *Dylai'r Cynulliad ddileu'r gyfundrefn grantiau busnes bresennol a gosod benthyciadau ar log isel a datblygu diwylliant buddsoddi yn eu lle.*
- *Dylai'r Cynulliad edrych i mewn i ymarferoldeb harmoneiddio'r broses gaffael gyhoeddus yng Nghymru a gosod cwota lleiafsymiol ar gyfer cytundebau a ddyfernir i gwmnïau Cymreig.*
- *Dylid darparu adborth rhagweithiol i fusnesau sydd wedi cynnig yn aflwyddiannus am gytundebau sector cyhoeddus.*
- *Dylid rhoi ymrwymiad parhaus i ddatblygu a hyrwyddo rhaglen fentora busnes cynhwysfawr ar gyfer Cymru.*
- *Mae angen i ddiwylliant cynorthwyo busnes y Cynulliad symud tuag at wobrwyo llwyddiant yn hytrach na chefnogi methiant.*
- *Dylid bod cynnydd yn y cymorth sydd ar gael i fusnesau ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg.*

FSB Wales
Federation of Small Businesses

Cwmnïau Bach, Materion Mawr

Busnesau Sicr i Gymru

Mae arolwg FfBB yn dangos na chyflwynir adroddiad i'r heddlu ynglŷn â mwyafrif y troseddau a gyflwynir yn erbyn busnesau bach.

Mae FfBB yn teimlo fod gan fusnesau'r hawl i weithredu mewn amgylchedd sicr a diogel ac er nad oes gan y Cynulliad unrhyw gyfrifoldeb per se am blismona yng Nghymru, mae ganddo gyfrifoldeb am ddiogelwch cymunedol a chreu amgylchedd diogel. Am fod digwyddiadau troseddol ac ofn torcyfraith o'r pwys mwyaf, mi all, ac mae'n rhaid i gynllun ar gyfer mynd i'r afael â hwn fod yn fater y bydd yn rhaid i'r Cynulliad nesaf ymwneud ag ef.

Mae ein tystiolaeth yn dangos fod dros draean o fusnesau yn teimlo na fuasai cyflwyno adroddiad am drosedd yn cyflawni dim byd ac nid yw llawer o berchnogion busnesau yn teimlo y bydd yr heddlu yn gallu ffeindio'r troseddwyr na chyflawni erlyniad llwyddiannus[3]. Er y gall bwriad perchennog busnes i beidio â gwneud hawliad yswiriant fod yn rhannol gyfrifol am hyn, teimlwn fod angen edrych ar y rhesymau ehangach am yr agwedd hon.

Rhesymau nodedig eraill a roddir, yw nas canfyddir bod 'diddordeb' gan yr heddlu, nas ystyriwyd y drosedd yn un digon difrifol, neu'r oedd diffyg tystiolaeth.

Mae gwella perthynas busnesau gyda'r heddlu yn bwysig iawn, nid yn unig ar gyfer casglu gwybodaeth am dor-cyfraith er mwyn tracio patrymau ond er mwyn ei atal, ond hefyd am fod BBaCh wedi'u lleoli wrth galon ein cymunedau ac mae ganddynt hwy gyfrifoldeb am atal torcyfraith a diogelwch cymunedol ac maent mewn lle i ddod â chymunedau at ei gilydd yn y dasg honno. Mae busnesau'n teimlo y dylai'r Cynulliad gael rhan i'w chwarae wrth gynorthwyo i feithrin y berthynas hon. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gwneuthurwyr-penderfyniadau, yr heddlu a chyrff perthnasol eraill fabwysiadu'r dull cywir. Mae cydweithredu agos rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Gartref hefyd yn dyngedfennol er mwyn sicrhau fod y mesurau canlynol yn llwyddiannus yn eu nod.

Ar hyn o bryd, mae rhaniad rhwng cyfrifoldebau'r cyrff sy'n gweithio i wrthsefyll torcyfraith yng Nghymru. Teimlwn fod angen perthynas mwy cydlynol er mwyn sicrhau fod gan Gymru gymunedau diogel, lle gall busnesau ffynnu.

Astudiaeth Achos - Just Right, Denbigh

Mae Terry Wilde a'i wraig wedi bod yn berchnogion Just Right, siop nodedig sy'n arbenigo mewn pethau casgladwy ers 1983. Mae'r busnes wedi'i leoli yng nghanol tref Dinbych.

"Yn draddodiadol, nid yw diogelwch cymunedol yn fater sy'n gysylltiedig â threfi marchnad gwledig, ond mae'n dod yn bwysicach wrth i CCTV a sicrwydd yn y trefi mawr wthio'r broblem i mewn i ardaloedd eraill. Gall fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ein strydoedd wneud cymaint o niwed i fusnes â cholled oherwydd stoc sydd wedi'i ddwyn.

O'r blaen, roedd gennym system lwyddiannus iawn yn Ninbych pan roedd gennym Wardeniaid Cymunedol yn cydlynu cyswllt radio cymorthdaledig rhwng amrywiol fusnesau. Daeth y Wardeniaid i adnabod y busnesau ac ennill eu hymddiriedaeth ynghyd â dod i wybod pa unigolion oedd prif ffynonellau'r problemau. Mae'r cynllun llwyddiannus hwn fodd bynnag wedi'i ddileu a bellach nid oes gennym unrhyw Wardeniaid lleol i fwydo gwybodaeth neu i dderbyn cyngor oddi wrthynt.

Mae'n swnio fel y fath ateb syml – mwy o bresenoldeb gweledol a chyswllt rhwng Wardeniaid a busnesau a rhwydwaith cydlynol rhwng y busnesau eu hunain. Er nad yw'n gyfrifol am blismona, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol chwarae ei ran, a gallai arwain y ffordd trwy noddi Wardeniaid Cymunedol er mwyn helpu busnesau i deimlo'n fwy diogel a helpu datrys rhai o'r problemau yr ydym yn eu hwynebu".

Argymhellion FfBB

- *Dylai Llywodraeth nesaf y Cynulliad ymrwymo'i hun i ddatblygu Fforwm Partneriaeth Torcyfraith Busnes ar gyfer Cymru ynghyd ag agenda fusnes ffurfiol ar Fforwm Partneriaeth Torcyfraith Cymunedol ar gyfer Cymru.*
- *Dylid sefydlu Canolfan Torcyfraith Busnes yng Nghymru yn seiliedig ar fodel llwyddiannus iawn yr Alban.*
- *Dylai'r Cynulliad gyllido darpariaeth system 'rhwydwaith radio' yn nhrefi Cymru.*
- *Dylai Llywodraeth nesaf y Cynulliad ymrwymo'i hun i gefnogi'r strategaeth E-Dorcyfraith ar gyfer Cymru ar y cyd â'r Swyddfa Gartref.*
- *Dylai Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol geisio hybu hyfforddiant atal torcyfraith oddi mewn i fusnesau yng Nghymru.*
- *Dylid sefydlu Partneriaethau Diogelwch Busnes yng Nghymru gan adlewyrchu'r 22 Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.*
- *Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gynnwys cynrychiolaeth o fyd busnes.*
- *Dylai'r Cynulliad gynorthwyo gyda chyllido Wardeniaid Cymunedol mewn canolau trefi.*

[3] *Arolwg Dwyflynyddol FfBB o'r aelodaeth Codi'r Rhwystrau i Dyfiant mewn Busnesau Bach 2006*

FSB WALES
Federation of Small Businesses

Cwmnïau Bach, Materion Mawr

Sgiliau i Gymru

Mae FfBB yn credu fod agenda sgiliau wedi dal yn rhy bell i ffwrdd o agenda ac anghenion busnesau yng Nghymru. Canlyniad anochel hyn oll yw prinder sgiliau sydd â chryn dystiolaeth iddo, oddi mewn i fyd busnes yng Nghymru.

Amlygodd arolwg dylanwadol FfBB Codi'r Rhwystrau i Dyfiant brinder sgiliau, sgiliau technegol ac amhenodol. Un o'r pryderon y cyfeirir ato amlaf o blith busnesau yng Nghymru yw safon sgiliau galwedigaethol a'r hyn y gellir ei alw yn sgiliau 'crefft' megis gwaith saer ac asiedydd a gwaith plymwr ynghyd â sgiliau 'sylfaenol' mwy generig.

Mae llawer o resymau pam fo cyflogwyr yn dewis peidio â chymryd prentis, p'un ai am nas gwelir bod y cynlluniau'n berthnasol neu'n briodol ar gyfer y busnes, yn rhy ddrud neu rhy fiwrocratig, neu oherwydd diffyg ymgeiswyr addas. Fodd bynnag, mae 65.5% o fusnesau wedi datgan y buasai cymhellion ariannol yn eu hannog i gymryd prentis a dylid manteisio ar y cyfle hwn[4]. Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru hyrwyddo gwerth cyrsiau galwedigaethol i fusnesau ac unigolion yn well er mwyn sicrhau twf y fath sgiliau a'u defnydd oddi mewn i fusnes.

Bydd yn rhaid i'r Cynulliad nesaf ailddyblu ei ymdrechion a gweithio'n galed i wella delwedd prentisiaethau ac addysg alwedigaethol. Yn aml canfyddir y fath sgiliau fel rhai eilradd a heb fod mor uchel eu bri â chymwysterau gradd, sydd wedi'u hyrwyddo'n eang. Fodd bynnag, mae'r agwedd hon wedi arwain at brinder dybryd o ran sgiliau ac os na wneir dim yn ei chylch, bydd hyn yn ddiamau n creu bygythiadau sylweddol i economi Cymru.

Mae mwy o hyfforddiant cyffredinol hefyd yn fater pwysig. Mae ystadegau FfBB yn dangos yr ymgymerwyd yn bennaf â hyfforddiant staff yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gan aelod o staff yn y gweithle (25.7%). Mae 'dysgu trwy wneud' yn gyfrifol am bron 15% o'r hyfforddiant yr ymgymerir ag ef ac mae chwarter y busnesau heb ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant o gwbl[5].

Yr hyn sydd angen ei gydnabod yw'r rhwystrau i hyfforddiant 'ffurfiol' yn y gweithle megis hygyrchedd, cost a dewis. Mae angen i'r Cynulliad nesaf gydnabod nad yw diffyg hyfforddiant a gydnabyddir yn ffurfiol yn golygu nad oes hyfforddiant yn cael ei gynnig a bod angen dod o hyd i fecanweithiau ar gyfer cydnabod hyfforddiant 'anffurfiol' a weinyddir ar hyn o bryd gan gyflogwyr. Yn anad dim, RHAID i alw arwain hyfforddiant.

Astudiaeth Achos - Jobforce Wales, Llanelli

Mae Jobforce Wales yn un o ddarparwyr hyfforddiant blaenllaw Cymru ac mae wedi bod yn gweithredu yn Llanelli ers 21 mlynedd. Mae'r cwmni yn darparu cyfleoedd dysgu cydnabyddedig ac achrededig ledled Gorllewin Cymru ac mae'n gweithredu fel cyswllt i ryw 500 o fusnesau. Mae Rob Jenkins, Prif Weithredwr Jobforce Wales yn teimlo'n gryf fod yn rhaid i'r Cynulliad nesaf edrych i gyfeiriad addasu hyfforddiant seiliedig-ar-sgiliau yn well i anghenion busnesau.

"Mae hi'n bwysig fod y Llywodraeth nesaf yn cydnabod ei bod hi'n hanfodol mai galw sy'n arwain hyfforddiant seiliedig-ar-sgiliau. Mae'r fframwaith cyfredol yn un anhyblyg a thro ar ôl tro, mae cyflogwyr yn dweud wrthyf nad yw'n ymatebol i'w hanghenion. Mae hyn yn neilltuol o wir am BBaCh. Darparwyr hyfforddiant sy'n gweithio yn y maes ac sydd mewn cyswllt dyddiol â chyflogwyr yw'r adnodd gorau ar gyfer canfod bylchau mewn sgiliau a chyfleoedd newydd mewn hyfforddiant. Mae angen rhyddhau ein dwylo o'r strwythurau anhyblyg hyn er mwyn i ni allu helpu busnesau i fynd i'r afael yn briodol â'u hanghenion hyfforddiant.

Mae angen i fframweithiau hyfforddi dderbyn ac addasu i natur BBaCh sy'n brif gynhalwyr ein heconomi. Mae angen i hyfforddiant fod llawer yn fwy hyblyg am fod hyn yn ychwanegu gwerth i'r dysgwr. Ni ellir gor-bwysleisio'r angen am hyfforddiant sy'n seiliedig-ar-alw. Heb newid, yr ydym yn methu cyflogwyr a chyflogedigion fel ei gilydd ac yn peryglu ein heconomi".

Argymhellion FfBB

- *Dylid datblygu hyfforddiant rheolaethol a marchnata sydd wedi'i dargedu'n well ar gyfer BBaCh.*
- *Dylai'r Cynulliad ystyried creu cymhorthdal prentisiaeth cyflogwyr misol er mwyn cymell hyfforddi prentisiaid a helpu lleihau'r gost i gyflogwyr yn seiliedig ar y model llwyddiannus yn Awstria.*
- *Dylai'r Cynulliad fabwysiadu prosesau ffurfiol ar gyfer tracio graddedigion.*
- *Dylai entrepreneuriaeth a menter gael eu cynnwys fel rhan orfodol o gwricwlwm ysgolion.*
- *Dylid llunio mecanweithiau ar gyfer cydnabod a chynorthwyo hyfforddiant 'anffurfiol'.*
- *Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fonitro bylchau mewn sgiliau yn well trwy ddarparwyr hyfforddiant.*
- *Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau mai galw sy'n arwain hyfforddiant.*
- *Dylai'r Cynulliad Geisio hyrwyddo prentisiaethau'n well a'u gosod ar baredd â chymwysterau gradd.*

[4] *Arolwg Dwyflynyddol FfBB o'r aelodaeth Codi'r Rhwystrau i Dyfiant mewn Busnesau Bach 2006*
[5] *Arolwg Dwyflynyddol FfBB o'r aelodaeth Codi'r Rhwystrau i Dyfiant mewn Busnesau Bach 2006*

FSB Wales
Federation of Small Businesses

Cwmnïau Bach, Materion Mawr

Amgylchedd Cynaliadwy i Gymru

Fel arfer, ni chanfyddir bod busnesau ar ben blaen hyrwyddo cynaladwyedd amgylcheddol yn eu harferion beunyddiol ac fe'u gwelir gan rai fel 'gelynion' cynaladwyedd amgylcheddol. Fodd bynnag, ym mwyafrif llethol yr achosion, label di-sail yw hwn.

Y realiti yw bod rhan fwyaf y busnes bach yn ymwybodol iawn o'u rôl wrth warchod yr amgylchedd, ond pur anfynych y telir sylw digonol i'r gwaith yr ymgymerir ag ef gan BBaCh neu i'r ewyllys sy'n bodoli i chwarae rhan wrth hyrwyddo cynaladwyedd amgylcheddol.

Mae ystadegau FfBB yn awgrymu fod mwy nag 1 busnes ym mhob 10 yn gweld lleihau eu heffaith amgylcheddol fel y prif yrrwr ar gyfer gwella eu busnesau dros y ddwy flynedd nesaf - mae hynny yn ogystal ag ehangu eu busnesau! Fodd bynnag, mae nifer llethol o fusnesau yn rhwystredig am na roddir yr un cymorth iddynt â deiliaid tai ar gyfer ailgylchu gwastraff sylfaenol megis papur[6].

Mae FfBB yn credu'n gryf y dylid cymell mesurau ar gyfer hyrwyddo arfer amgylcheddol gwell ond hefyd gwobrwyo'r busnesau hynny sy'n dangos ymrwymiad eisoes. Yr ydym yn teimlo fod angen rhyddfrydoli cyfundrefnau cynllunio er mwyn caniatáu ehangu priodol ym maes technolegau micro gynhyrchu am fod yn y rhain yn aml yn gwrthdaro ag unrhyw ewyllys politicaidd i hyrwyddo micro gynhyrchu oddi mewn i fusnes.

Mae cael gwared ar wastraff peryglus yn dal i olygu cludo'r fath wastraff i Loegr. Mae hon yn sefyllfa ddamniol sy'n gostus ac yn niweidiol i'r amgylchedd ac mae'n galw am weithredu ar fyrder.

Yn fyr, mae busnesau yn cydnabod eu cyfrifoldebau a nawr yw'r amser i fanteisio ar yr agwedd gadarnhaol hon.

Astudiaeth Achos - Granant Pre-cast Concrete, Llandudoch

Mae Granant Pre-cast Concrete wedi bod yn gweithredu ger Llandudoch yn Sir Benfro ers bron i 50 mlynedd, a John Morris a'i fab sy'n ei redeg. Mae'r cwmni yn cynhyrchu rhwng chwech a saith mil o dunelli o gynnyrch concrid rhag-gastiedig o ansawdd uchel ar gyfer y diwydiant amaeth o gwmpas y DU. Del busnes sefydledig, mae Granant yn cyflogi 8 o bobl ac mae'n rhan dyngedfennol o'r economi leol. Mae gan y cwmni achrediad dan flaengarwch y Ddraig Werdd.

"Os yw busnesau i ddod yn fwy gwyrdd, fel y mae'r Cynulliad ei eisiau, mae angen y lle arnom a rhywfaint o ryddid i wneud hynny. Mae busnes fel sydd gyda ni yn defnyddio eithaf tipyn o ynni ac mae prisiau cynyddol yn cael effaith cost-uchel a gall hyn fod yn anodd ymdopi ag ef, ond yr ydym hefyd yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau amgylcheddol. Mae llawer y gallem ei wneud i newid ond mae angen iddi fod yn haws i fusnesau gael prosiectau micro gynhyrchu trwy'r broses gynllunio.

Mae rhan fwyaf y busnesau eisiau bod yn wyrdd. Mae'n gwneud synnwyr busnes da ac mae'n dda i'r amgylchedd ond mae angen cyfateb polisïau'r Cynulliad â gweithredu gan awdurdodau cynllunio sydd yn y maes. Nid yw'n gwneud synnwyr os yw'r gyfundrefn gynllunio yn sefyll yn ffordd cynaladwyedd amgylcheddol".

Argymhellion FfBB

- *Darparu ailgylchu gwastraff ar-y-palmant am ddim drwy Gymru drwyddi draw.*
- *Dylai gwastraff busnes gael ei ymgorffori yn nhargedau ailgylchu gwastraff ar gyfer awdurdodau lleol.*
- *Lleihau trethi BBaCh sy'n gallu arddangos ymrwymiad i gynaladwyedd amgylcheddol.*
- *Dylai'r Cynulliad ddatblygu cit offer amgylcheddol ar gyfer BBaCh.*
- *Dylai'r Cynulliad ehangu cymorth i sefydlu micro gynhyrchu gan fusnesau gan gynnwys darparu benthyciadau llog isel.*
- *Dylai'r Cynulliad ryddhau micro gynhyrchu o gyfyngiadau cynllunio dianghenraid.*
- *Dylai'r Cynulliad, ar y cyd â Llywodraeth y DU, ymchwilio i mewn i ddichonolrwydd rhyddhad ardrethi i fusnesau sy'n ôl-fwydo ynni dros ben i mewn i'r Grid cenedlaethol o ficro gynhyrchu.*
- *Dylai'r Cynulliad sicrhau darpariaeth safleoedd gwastraff peryglus yng Nghymru.*

[6] *Arolwg Dwyflynyddol FfBB o'r aelodaeth Codi'r Rhwystrau i Dyfiant mewn Busnesau Bach 2006*

FSB Wales
Federation of Small Businesses

Cwmnïau Bach, Materion Mawr

Ffyniant i Gymru

Bydd economi Cymru yn wynebu sialensiau sylweddol dros y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd y sialensiau hyn yn dod nid yn unig o gystadleuaeth o economïau eraill ond o'r angen i uwchraddio sgiliau busnes a'u hannog i fod yn fwy effeithlon, mabwysiadu arferion main a dod yn arloesol ar gyfer y dasg honno. Mae hi'n bwysig fod Cymru yn ceisio bocsio yn uwch na'i phwysau mewn amgylchedd byd cynyddol ymosodol.

Mae'r neges allweddol o'r ddogfen hon yn eglur. Y dylai tymor nesaf y Cynulliad Cenedlaethol ffocysu ar ddatblygu a chynnal economi busnesau bach, gan gydnabod y rôl gynyddol bwysig a chwaraeir gan y sector hwn o fywyd busnes Cymru. Mae angen i'r Cynulliad nesaf asesu'n ofalus y bygythiadau i'n busnesau bach ac felly ein cymunedau gan ddyfeisio strategaethau er mwyn cywiro materion hyn mewn partneriaeth â'r sector preifat. Ni all gymunedau ddatblygu heb gronfa iach ac amrywiol o fusnesau, a rhaid peidio ag ystyried gweithrediadau polisi cymdeithasol fel rhywbeth arwahanol ond rhaid iddynt gymryd anghenion busnesau i ystyriaeth.

Dylai swyddogaeth ddeddfwriaethol ehangach a'i gyfrifoldebau ychwanegol, unig gyfyngiad y Cynulliad nesaf fydd ei uchelgais a theimlwn yn gryf felly, y dylai edrych ar sut y gellir defnyddio'r pwerau hyn ar gyfer helpu'r sector preifat i ehangu yn hytrach na cheisio cyfyngu ar neu reoleiddio busnesau ymhellach. Mae angen i'r Cynulliad nesaf hefyd i ddeall fod cynaladwyedd amgylcheddol a chystadleugarwch economaidd yn wir yn gallu mynd llaw yn llaw, a bod angen cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae BBaCh yn ei wneud eisoes i gynaladwyedd amgylcheddol a chymell gweithredu pellach.

Mae FfBB Cymru yn gweld hyrwyddo olyniaeth busnes fel un o gydrannau allweddol creu economi iach yng Nghymru. Dylai'r Cynulliad nesaf ymrwymo i hyn fel rhan bwysig o hyrwyddo cymunedau cynaliadwy er mwyn sicrhau y gall busnesau iach, llwyddiannus barhau y tu hwnt i ymadawiad perchennog y busnes, er enghraifft.

Teimlwn ei bod hi'n bryd ailffocysu economi Cymru ar BBaCh ac addasu prosesau a strwythurau er mwyn cynorthwyo gyda thyfiant a datblygiad economi busnesau bach, gan sylweddoli fod llwyddiant ein heconomi at y dyfodol yn dibynnu ar berffeithio'r fformwla.

Mae'r ddogfen hon yn dangos nad yw busnesau yn edrych i'r Cynulliad i wneud eu busnesau yn gystadleuol neu'n llwyddiannus iddynt, ond eu bônt yn edrych i'r Cynulliad i chwarae ei ran wrth greu'r amodau priodol ar gyfer tyfiant. Mae'r dasg hon yn sialens sylweddol ond ymhell o fod yn anorchfygol, ac mae'n sialens y mae FfBB yn hapus i'w rhoi i Lywodraeth nesaf Cynulliad Cymru.

Y Deg Prif Flaenoriaeth ar gyfer y Tymor Nesaf

1. *Dylid gweithredu strategaeth a datblygu prosesau olyniaeth busnes, sy'n canfod cyfleoedd i'r rhai hynny a allai fod yn dymuno cymryd busnes drosodd a dylid eithrio gwerthiannau olyniaeth busnes o dreth ar enillion cyfalaf.*
2. *Dylid ehangu'r gronfa sydd ar gael ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yn sylweddol er mwyn cyflawni paredd â'r lefel rhyddhad sydd ar gael i fusnesau yn Lloegr.*
3. *Dylid sefydlu Canolfan Torcyfraith Busnes yn seiliedig ar fodel yr Alban.*
4. *Entrepreneuriaeth a menter i gael eu cynnwys fel adrannau gorfodol o'r cwricwlwm.*
5. *Dylai'r Cynulliad ddatblygu dull 3-cham o fynd i'r afael â chynorthwyo busnes, gan gynnwys cymorth ar gyfer sefydlu, cymorth ar gyfer ehangu a chymorth ar gyfer olyniaeth.*
6. *Dylai darpariaeth ailgylchu ar-y-palmant am ddim fod ar gael i fusnesau trwy Gymru drwyddi draw.*
7. *Mae'n rhaid i lywodraeth nesaf y Cynulliad annog awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y gwneir darpariaeth unedau manwerthu fforddiadwy neu gymorthdaledig yn amod ar gyfer datblygiadau siopa newydd er mwyn sicrhau amrywiaeth a goroesiad busnesau bach ac atal yr effaith 'tref clôn' y mae cryn dystiolaeth ohono.*
8. *Dylai datblygiadau archfarchnadoedd yng Nghymru fod yn atebol, a hynny'n orfodol, i asesiad effaith manwerthu annibynnol.*
9. *Dylid llunio mecanweithiau er mwyn cydnabod hyfforddiant 'anffurfiol' yn briodol.*
10. *Dylai'r Cynulliad ddileu'r drefn bresennol o grantiau busnes, gan droi at fenthyciadau llog isel a datblygu diwylliant buddsoddi.*